# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL ARBENNIG

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, CANOLFAN DDINESIG, ABERTAWE DDYDD GWENER 3 MEHEFIN AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorywyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorywyr** |
|---|---|---|
| A S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| P Downing | V M Evans | P. Lloyd |
| K E Marsh | H M Morris | C L Philpott |
| T H Rees | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol -Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Aled Gruffydd | Uwch-gyfreithiwr |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Apologies for Absence**
Councillor(s): J P Curtice
Independent Member(s):

12 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r côd ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

13 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - FORD GALAXY (PX06 CTF) - MR D JONES.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod yr adroddiad ynglŷn â'r cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat cyfyngedig wedi'i dynnu'n ôl. Cymeradwywyd y cais gan swyddogion yn dilyn penderfyniad aelodau yn y Pwyllgor Trwyddedu ar 27 Mai 2016 i awdurdodi swyddogion o'r is-adran Drwyddedu i ganiatáu trwyddedu cerbydau mewn perthynas â cheisiadau cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â meini prawf oedran cyfredol y cyngor ar gyfer trwyddedu cerbydau, ar yr amod bod y cerbyd yn bodloni pob maen prawf perthnasol arall ar gyfer ceisiadau/trwyddedu.

14 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddynt ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf

Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

15 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - CIS.**

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â CIS.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r Swyddog Adrannol -Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch a ymatebodd yn briodol.

Amlinellodd CIS y manylion cefndir a'r amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais CIS i adnewyddu ei drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i CIS dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

16 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - WMP.**

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol -Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â WMP.

Amlinellodd WMP a'i gynrychiolydd, Mr Warren, y manylion cefndir a'r amgylchiadau ynglŷn â'i gollfarnau a'i rybudd ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **DIDDYMU** trwydded yrru hacni a hurio preifat WMP.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd yr aelodau'n fodlon fod WMP yn berson addas a phriodol i feddu ar drwydded. Er y teimlwyd mai'r fersiwn o ddigwyddiadau, a ddarparwyd i'r heddlu gan WMP oedd y fersiwn gywir, roedd WMP wedi bod yn anonest naill ai gyda'r heddlu neu gyda'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ac o ganliad roedd anonestrwydd wedi bod yn bresennol. Credai aelodau fod patrwm o anonestrwydd wedi bodoli wrth ystyried troseddau blaenorol ac o ganlyniad atalwyd trwyddedu gyrru hacni a hurio preifat WMP yn flaenorol. Fodd bynnag, nid chafodd hyn ei ystyried.

17 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - OSSE.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch nad oedd OSSE gallu dod i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag OSSE.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol**:**

**a.** Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb OSSE am nad oedd unrhyw eglurhad am absenoldeb OSSE;
**b.** Dylid adnewyddu trwyddedau gyrru cerbydau hacni a hurio preifat OSSE ac y dylai OSSE dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am

**CADEIRYDD**